Deall Jargon Anghenion Dysgu Ychwanegol

AAA: 'Anghenion Addysgol Arbennig' – mae gan blentyn angen addysgol arbennig os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig.

Adolygiad Blynyddol: yr Adolygiad o Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei wneud o fewn 12 mis ar ôl gwneud y Datganiad ac unwaith y flwyddyn wedyn.

Adroddiad Adolygiad Blynyddol: adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd y mae'r ysgol yn ei gwblhau ar gyfer cyfarfod Adolygiad Blynyddol neu Bontio.

ADY: Anghenion Dysgu Ychwanegol

Addysg Bellach: addysg ôl-16.

Amlddisgyblaethol: yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau (Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd fel arfer)

Anawsterau Dysgu: mae anawsterau dysgu gan blentyn os yw'n ei chael yn llawer mwy anodd dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran.

Anawsterau Dysgu Difrifol: Mae namau deallusol neu wybyddol sylweddol gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Mae'n bosibl y bydd ganddynt broblemau hefyd o ran symud o gwmpas a chydsymudiad y corff, cyfathrebu a chanfyddiad a sgiliau hunangymorth ar gyfer dysgu. Bydd angen cymorth ym mhob rhan o'r cwricwlwm ar ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol.

Anawsterau dysgu dwys a lluosog: yn ogystal ag anawsterau dysgu difrifol, mae gan y disgyblion anawsterau sylweddol eraill, fel anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau neu anhwylder meddygol difrifol. Bydd ar ddisgyblion angen llawer o gymorth gan oedolion, i ddiwallu eu hanghenion dysgu a hefyd ar gyfer eu gofal personol.

Anawsterau Dysgu Penodol: Anawsterau mewn rhan benodol o'r cwricwlwm.

Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: gall disgyblion fod ag anawsterau o ran mynegiant, y gallu i ddeall iaith a/neu anawsterau o ran prosesu iaith.

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: term am wahanol fathau o anhwylderau sy'n effeithio ar ddatblygiad o ran rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu a'r dychymyg.

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd: gwahanol fathau o ymddygiad problemus sy'n gysylltiedig ag anawsterau o ran canolbwyntio, gan gynnwys aflonyddwch a gorfywiogrwydd.

Asesiad Adran 140: asesiad o anghenion y myfyriwr o ran addysg a hyfforddiant a'r ddarpariaeth i'w diwallu. Mae'r gofyniad statudol i gyflawni'r asesiadau hyn o Flwyddyn 11 wedi'i ddirprwyo i swyddogion Gyrfa Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Asesiad Craidd: os bydd angen cynnal yr asesiad hwn, caiff ei wneud gan staff Gwaith Cymdeithasol yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ar ôl gwneud Asesiad Cychwynnol. Mae'n asesiad manwl sy'n edrych ar anghenion y plentyn/teulu – anghenion iechyd sylweddol, anabledd corfforol neu broblemau ymddygiad sy'n galw am nifer o wahanol wasanaethau. Rhaid ei gwblhau o fewn 35 diwrnod gwaith.

Asesiad Statudol: mae Asesiad Statudol yn weithdrefn ffurfiol sy'n cael ei rheoli gan y gyfraith (Deddf Addysg 1996) sy'n casglu asesiadau manwl o anghenion addysgol arbennig y plentyn. Bydd asesu'n gweithio orau pan fydd pawb yn cymryd rhan – rhieni, staff yr ysgol, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, seicolegwyr a staff eraill yr Awdurdod Lleol – i sicrhau'r canlyniad gorau i'r plentyn.

Atgyfeiriad Un Gwasanaeth: ffurflen i'w llenwi os oes un angen penodol gan blentyn y gall un gwasanaeth ei ddiwallu.

Athro cyswllt cyn ysgol: athro sydd â phrofiad a gwybodaeth arbenigol ym maes Anghenion Addysgol Arbennig y Blynyddoedd Cynnar, a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol i ddarparu cyngor a chymorth i staff y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau ynghylch cynnwys plant sydd ag AAA. Mae'n helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer dyfodiad y plentyn i'r dosbarth Derbyn.

CAMHS (Child and Adolescent Mental Health Services): Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed sy'n darparu cymorth, cefnogaeth a gofal i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Canolfan Adnoddau: darpariaeth arbenigol ar gyfer plant sydd ag AAA sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu uwchradd brif ffrwd. Ar hyn o bryd mae 4 canolfan adnoddau gynradd a 4 canolfan adnoddau uwchradd yn cwrdd ag anghenion plant sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, anawsterau iaith a lleferydd, anableddau corfforol a nam ar y clyw. Yr Awdurdod Lleol fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch lleoli disgyblion.

Canolfannau Plant: lleoedd ar gyfer plant dan 5 oed a'u teuluoedd lle gallant gael gwasanaethau integredig cyfannol di-dor a lle y gallant gael cymorth gan dimau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol sy'n cynnig: gofal drwy'r dydd; addysg y blynyddoedd cynnar; gwasanaethau iechyd plant a theuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau cyn geni; allgymorth i rieni; gwasanaethau cymorth i deuluoedd; cymorth gwarchod plant ar gyfer plant a rhieni sydd ag anghenion arbennig; cysylltiadau effeithiol â Canolfan Byd Gwaith.

CAU: Cynllun Addysg Unigol – set o dargedau dysgu tymor byr sydd wedi'u pennu ar gyfer plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig. Bydd yn cael ei lunio fel arfer gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig ac athrawon, ond dylid cynnwys rhieni a disgyblion yn y broses bob amser. Rhaid adolygu'r CAU o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ond yn aml bydd yn briodol ei adolygu'n amlach.

CDU: Cynllun Datblygu Unigol.

Cefnogwr Annibynnol i Rieni: rhywun sy'n gallu cynorthwyo rhieni, eu hannog i gymryd rhan a'u helpu i ddeall y fframwaith AAA. Ystyr 'annibynnol' yw rhywun sy'n annibynnol ar y broses sy'n penderfynu math a lefel y cymorth y bydd plentyn sydd ag AAA yn ei gael. Yn aml bydd y cefnogwr yn gweithio i sefydliad gwirfoddol, Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni, neu'n rhiant arall neu'n ffrind.

Cod Ymarfer AAA: canllaw i rieni, ysgolion ac Awdurdodau Lleol ar y cymorth y gallant ei roi i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae ysgolion, Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn gorfod dal sylw ar y Cod (h.y. rhaid iddynt beidio â'i anwybyddu) pan fyddant yn gweithio gyda phlentyn sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Crynodeb o'r Adolygiad Blynyddol: adroddiad ysgrifenedig y mae'r ysgol yn ei gwblhau sy'n cofnodi'r holl wybodaeth ac argymhellion o gyfarfod yr Adolygiad Blynyddol ac y bydd yn ei anfon i'r Awdurdod Lleol i'w ystyried gan y Panel Cynghori ar Achosion.

Cwricwlwm Cenedlaethol: mae'n darparu ar gyfer addysg strwythuredig sy'n cael ei hasesu drwy Gyfnodau Allweddol.

Cydlynydd AAA: aelod o'r staff mewn ysgol neu leoliad addysg gynnar sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) yn yr ysgol honno.

Cydlynydd Cymorth Cynhwysiant: athro sydd â phrofiad a gwybodaeth arbenigol am AAA mewn maes penodol. Mae'n helpu ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu arferion cynhwysol a'u gallu i gwrdd ag anghenion disgyblion sydd ag AAA. Bydd yn darparu cyngor penodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth a llai cyffredin.

Cyfnodau Allweddol:

Cyfnod Sylfaen: Geni-5 mlwydd oed (diwedd y Flwyddyn Derbyn)

Cyfnod Allweddol 1: Blynyddoedd 1-2 5-7 oed

Cyfnod Allweddol 2: Blynyddoedd 3-6 7-11 oed

Cyfnod Allweddol 3: Blynyddoedd 7-9 11-14 oed

Cyfnod Allweddol 4: Blynyddoedd 10-11 14-16 oed

Cyfnod Sylfaen: mae'r cyfnod hwn yn dechrau pan gaiff plentyn ei eni ac yn dod i ben ar ddiwedd ei flwyddyn yn y dosbarth Derbyn.

Cyllid Dirprwyedig: mae pob ysgol yn cael ei chyllid oddi wrth Lywodraeth Ganolog drwy'r Awdurdod Lleol ar sail nifer o fformiwlâu sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo cyllid ar sail nifer ac ystod oedran y disgyblion ym mhob ysgol.

Cynhwysiant: addysgu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd (lleol) lle bynnag y bo modd.

Cynllun Cymorth Bugeiliol: mae'n cael ei lunio i helpu i newid ymddygiad disgybl. Mae'r cynllun i'w roi ar waith os oes perygl mawr i'r plentyn gael ei wahardd yn barhaol.

Cynllun Pontio: cynllun sy'n cael ei ddyfeisio ar ôl yr Adolygiad Blynyddol ym Mlwyddyn 9 a'i ddiweddaru mewn adolygiadau blynyddol ar ôl hynny. Pwrpas y cynllun yw casglu gwybodaeth oddi wrth wahanol unigolion y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol er mwyn cynllunio'n rhesymegol ar gyfer pontio gan y person ifanc i fyd oedolion.

Cynorthwyydd Addysgu / Cynorthwyydd Cymorth Dysgu/Cynorthwyydd Cyffredinol: rhywun a gyflogir mewn ysgol i helpu plant i ddysgu o dan gyfarwyddyd athro dosbarth.

Datganiad Arfaethedig: Datganiad drafft yw hwn sy'n rhoi 15 diwrnod gwaith i rieni i wneud sylw neu ofyn am addasiadau cyn rhoi'r Datganiad Terfynol.

Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig: dogfen gyfreithiol sy'n disgrifio anghenion addysgol arbennig y plentyn a'r holl gymorth ychwanegol y bydd yn rhaid iddo ei gael.

Datrys Anghytundebau: rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu trefniadau sy'n helpu i atal neu ddatrys anghytundebau rhwng rhieni i blant sydd ag AAA a'r Awdurdod Lleol neu ysgol. Os bydd rhieni'n defnyddio'r gwasanaeth hwn, ni fydd hynny'n effeithio ar eu hawl i apelio i'r Tribiwnlys AAA.

Dechrau'n Deg: un o raglenni Llywodraeth Cymru sy'n darparu ar gyfer teuluoedd sydd â phlant 0-3 blwydd oed.

Deddf Cydraddoldeb: Daeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym yn Hydref 2010. Mae'n cymryd lle deddfwriaeth flaenorol (fel Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

1995) ac yn sicrhau cysondeb o ran y camau y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau tegwch yn y gweithle a chydymffurfio â'r gyfraith.

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995: nod y ddeddf hon yw rhoi terfyn ar y gwahaniaethu a wynebir gan lawer o bobl sydd ag anableddau.

Ffisiotherapydd: therapydd sy'n cynorthwyo plant sydd ag anghenion corfforol a meddygol, yn eu helpu i ymarfer ac yn cynghori rhieni ac ysgolion.

Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad i gael darlun clir o anghenion ychwanegol y plentyn yn gynnar. Mae'n edrych ar yr holl anghenion sydd heb eu diwallu ac yn helpu plant i gael y gwasanaeth priodol yn gynharach.

Gwasanaeth Addysgu yn yr Ysbyty/Cartref: gweler hefyd Uned Cyfeirio Disgyblion.

Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni: maent yn darparu gwybodaeth a chymorth i rieni i blant sydd ag AAA er mwyn helpu rhieni i chwarae rhan yn wybodus yn addysg eu plentyn.

Gwasanaeth Cymorth Cynhwysiant: mae'n gweithio mewn ysgolion i feithrin gallu i gynnwys plant sydd â gwahanol anghenion addysgol arbennig. Bydd cydlynwyr yn cynghori ysgolion hefyd ynghylch cynnwys disgyblion unigol sydd â datganiadau o AAA.

Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd/Tîm Namau Synhwyraidd: tîm o staff cymwysedig profiadol sy'n cynnwys staff addysgu a staff eraill sy'n darparu cymorth medrus i blant sydd ag anghenion oherwydd nam ar y clyw, y golwg neu nifer o synhwyrau, gan gynnwys plant byddar a dall. Mae staff addysgu yn cynnig amrywiaeth fawr o sgiliau i addysgu a chynorthwyo plant a theuluoedd o adeg y diagnosis yn y blynyddoedd cynnar tyngedfennol a thrwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad: mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio gydag ysgolion i helpu disgyblion sydd ag anawsterau difrifol o ran ymddygiad.

Gwasanaeth Gyrfaoedd: gwasanaeth ar gyfer yr holl bobl ifanc 13-19 blwydd oed sy'n eu helpu i bontio i waith a bywyd fel oedolion.

Gweithiwr Portage: gweithiwr profiadol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol i weithio gyda phlant 0-3 oed sydd ag anghenion ychwanegol sylweddol a'u rhieni. Bydd yn gweithio yn y cartref ac yn darparu rhaglenni i hyrwyddo datblygiad plant ifanc, gan gadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol eraill.

Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol: un person sy'n gyfrifol am helpu'r plentyn a'r teulu drwy'r system ac am sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg briodol.

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar: pan bennir bod AAA gan blentyn, rhoddir cymorth sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r cymorth y mae'r rhan fwyaf o blant eraill yn ei gael. Fel arfer bydd Cynllun Chwarae neu Gynllun Chwarae Unigol yn cael ei lunio.

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy: cymorth a chynllunio wedi'i dargedu sy'n cynnwys mewnbwn gan gydlynydd anghenion addysgol arbennig yr ardal.

Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar: yr holl ddarpariaeth addysgol cyn ysgol mewn dosbarthiadau ac ysgolion meithrin, meithrinfeydd dydd a meithrinfeydd cyn ysgol.

Map Darpariaeth: map sy'n dangos y cymorth y mae'r ysgol/Awdurdod Lleol yn ei ddarparu i ddisgyblion sydd ag AAA i helpu rhieni i ddeall y cymorth sydd ar gael, ym mhle a chan bwy.

Mentor neu Fentor Dysgu: oedolyn neu ddisgybl hŷn sy'n cael ei ddynodi ar gyfer plentyn i'w helpu mewn nifer o feysydd gan gynnwys dysgu ac ymddygiad.

Monitro: asesu parhaus ar waith, cynnydd, gwariant neu gyflawniad.

Nam ar y clyw: mae namau ar y clyw ymysg plant yn amrywio o golli clyw i fyddardod llwyr.

Nam ar y golwg: amrediad o anawsterau o ran-ddallineb i ddallineb.

Nifer derbyn cyhoeddedig: nifer y disgyblion y gall yr ysgol eu derbyn yn y grŵp oedran perthnasol mewn blwyddyn benodol.

Nodyn yn lle Datganiad: nodyn y gellir ei roi i rieni'r plentyn a'r ysgol os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu, ar ôl gwneud Asesiad Statudol, na fydd yn gwneud Datganiad. Rhaid disgrifio yn y Nodyn beth yw anghenion addysgol arbennig y plentyn ac egluro pam nad yw'r Awdurdod Lleol yn credu bod angen gwneud Datganiad. Bydd hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer darpariaeth briodol i'r plentyn. Rhaid atodi'r holl gyngor a gafwyd yn ystod yr asesiad i'r Nodyn a'i anfon at y rhieni a hefyd, os byddant yn cydsynio, i ysgol y plentyn.

Panel Amlasiantaethol: mae'n ystyried achosion sydd wedi'u hatgyfeirio gan Wasanaeth Plant a Rhieni lle y credir bod angen cyllid neu ddarpariaeth amlasiantaethol, yn enwedig os yw lleoliad preswyl yn cael ei ystyried.

Pediatregydd: meddyg sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion babanod a phlant.

Seiciatrydd: meddyg sy'n helpu pobl sydd ag anawsterau o ran y ffordd y maent yn teimlo ac yn ymddwyn. Mae seiciatryddion plant yn arbenigo mewn helpu plant.

Seicolegydd Addysgol: bydd ganddo radd gyntaf mewn Seicoleg a chymhwyster ôl-raddedig mewn Seicoleg Addysgol. Mae'n athro hyfforddedig sydd â sawl blwyddyn o brofiad. Bydd yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol i ddisgyblion, ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill. Mae'r gwasanaeth hwn yn chwarae rhan bwysig ym mhroses yr Asesiad Statudol a gall gyfrannu at y broses cynllunio ar gyfer pontio a rhai Adolygiadau Blynyddol.

Swyddog Achos: swyddog penodol yn yr Awdurdod Lleol sy'n cydlynu proses yr Asesiad Statudol a gwaith ar gynnal datganiadau. Yr Swyddog Achos fydd y pwynt cyswllt cyntaf i rieni yn yr Awdurdod Lleol os byddant am gael ateb i gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt am waith ar Asesiad Statudol neu ar Ddatganiad eu plentyn.

Swyddog Lles Addysg: mae'n cynnig cymorth arbenigol i rieni ac ysgolion mewn cysylltiad â lles a phresenoldeb disgyblion. Bydd yn gweithio gydag asiantaethau eraill i hyrwyddo presenoldeb a lles. Mae'n gyfrifol am sicrhau presenoldeb plant o'r oedran ysgol statudol yn yr ysgol.

Swyddog Penodol yr Awdurdod Lleol (gweler hefyd Swyddog Achos): y person yn yr Awdurdod Lleol sy'n cysylltu â rhieni ynghylch y trefniadau sy'n ymwneud ag Asesu Statudol a gwneud y Datganiad.

Tariff Matrics: os yw plentyn wedi cael Datganiad, gellir rhoi cyllid ychwanegol i'r ysgol i dalu am staffio/adnoddau ychwanegol.

Teuluoedd yn Gyntaf: un o raglenni Llywodraeth Cymru yw Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'n darparu cymorth a systemau amlasiantaethol ar gyfer teuluoedd.

TG / TGCh: Technoleg Gwybodaeth (a elwir weithiau'n Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu)

Timau Ardal: aildrefnu staff i weithio mewn ffordd amlasiantaethol mewn ardaloedd penodol

Tîm o Amgylch y Teulu: ffordd o weithio sy'n dod â gweithwyr proffesiynol o lawer math at ei gilydd gyda theulu er mwyn eu helpu i ymdrin â'r gwahanol heriau y maent yn eu hwynebu.

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Cymru: corff annibynnol yn y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sy'n gwrando apelau gan rieni yn erbyn penderfyniadau gan Awdurdodau Lleol ynghylch asesiadau a Datganiadau. Ers Medi 2002, mae rhieni'n gallu cyflwyno apêl yn erbyn ysgol os oes anghytundeb ynghylch gwaharddiadau dros gyfnod penodol, neu os yw rhiant/gofalwr y plentyn yn teimlo bod gwahaniaethu'n digwydd yn erbyn ei blentyn oherwydd anabledd. Bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn rhwymo'r ddau barti.

Therapydd Iaith a Lleferydd: mae'n helpu plant sydd ag anawsterau o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Therapydd Galwedigaethol: gweithiwr proffesiynol sy'n cael ei gyflogi gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd i weithio gyda'r plentyn, rhieni ac athrawon. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio technegau therapiwtig (gan roi cyngor ar gyfarpar ac addasiadau i'r amgylchedd os yw'n briodol) i wella gallu'r plentyn i gael y cwricwlwm ar gyfer addysg gorfforol a dysgu.

Uned: gweler Canolfan Adnoddau

Uned Cyfeirio Disgyblion: mae'n darparu addysg i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd ac i eraill sydd heb fod yn yr ysgol am wahanol resymau.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: mae'r Comisiwn hwn yn gorff cyhoeddus anadrannol ym Mhrydain Fawr a sefydlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ac a ddaeth i fod ar 1 Hydref 2007. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am hyrwyddo a gorfodi deddfau sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac atal gwahaniaethu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ymgymerodd â chyfrifoldebau tri chomisiwn blaenorol: y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal (a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb rhwng y rhywiau) a'r Comisiwn Hawliau Anabledd. Mae'n gyfrifol hefyd am agweddau eraill ar gydraddoldeb: oed, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred. Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol, mae'n ceisio hyrwyddo a diogelu hawliau dynol ym Mhrydain Fawr.

Ymwelydd Iechyd: nyrs gymwysedig sydd wedi'i chyflogi gan y Gwasanaeth Iechyd i ddarparu cyngor ar iechyd cyffredinol y plentyn a phroblemau iechyd penodol ac mae ganddi gyfrifoldeb penodol am fonitro cynnydd y plentyn a chynghori rhieni pan fo angen.

Ysgol a gynhelir: ysgol wladol: mae hyn yn cynnwys ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol yn ogystal ag ysgolion cymunedol arbennig ac ysgolion sefydledig arbennig.

Ysgol Arbennig: ysgol sydd wedi'i threfnu'n arbennig i ddarparu addysg arbennig i ddisgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a Datganiadau na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd.

Ysgol brif ffrwd: ysgol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol nad yw'n ysgol arbennig. Ysgolion prif ffrwd yw'r rhan fwyaf o ysgolion ac maent yn cynnwys ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd.

Ysgolion Estynedig: mae'r ysgolion hyn yn darparu amrywiaeth fawr o weithgareddau a gwasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau o bob math. Bydd y gwasanaethau estynedig hyn wedi'u seilio ar anghenion a gofynion y disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach.